

This is an Open Access document downloaded from ORCA, Cardiff University's institutional repository: <https://orca.cardiff.ac.uk/id/eprint/161963/>

This is the author's version of a work that was submitted to / accepted for publication.

Citation for final published version:

Hopwood, Llewelyn 2023. Cymraeg egsoftig J R R Tolkien. O'r Pedwar Gwynt Haf (22), pp. 7-8.

Publishers page: <https://pedwargwynt.cymru/>

Please note:

Changes made as a result of publishing processes such as copy-editing, formatting and page numbers may not be reflected in this version. For the definitive version of this publication, please refer to the published source. You are advised to consult the publisher's version if you wish to cite this paper.

This version is being made available in accordance with publisher policies. See <http://orca.cf.ac.uk/policies.html> for usage policies. Copyright and moral rights for publications made available in ORCA are retained by the copyright holders.



Cymraeg egsotig J. R. R. Tolkien

Beth yw eich hoff air? Boed hynny yn Gymraeg, neu yn Saesneg, neu ym mha bynnag iaith arall. Beth yw eich hoff air, a hynny ar sail sain y gair hwnnw?

Sain ydy iaith wedi'r cyfan. Y ffordd orau o ddeall hynny yw drwy wrando ar ieithoedd anghyfarwydd. Wrth glywed sgwrs Bortiwgaleg, Arabeg, Xhosa, neu ba bynnag iaith nad ydych yn ei deall, mae bron yn amhosib clywed gwahaniaeth rhwng geiriau neu frawddegau, heb sôn am eu hystyron. Sain sydd gennym felly.

Mae'n dipyn anos cydnabod mai sain ydy'r ieithoedd cyfarwydd: y rhai rydym yn eu siarad. Er hynny, mae ambell artist wedi mynd ati i geisio profi'r ffaith hwn. Un o'm hoff enghreifftiau ydy gwaith Alvin Lucier, *I am sitting in a room* (1969). Mae sgript y perfformiad yn esbonio'r arbrawf:

I am sitting in a room different from the one you are in now. I am recording the sound of my speaking voice and I am going to play it back into the room again and again until the resonant frequencies of the room reinforce themselves so that any semblance of my speech, with perhaps the exception of rhythm, is destroyed.

Wedi rhyw ddeng munud yn unig, canlyniad y broses yw bod y Saesneg dealladwy uchod wedi troi yn sain annynol, ddiystyr, ac erchyll braidd.

Gwaith creadigol-arbrofol arall perthnasol ydy'r ddrama fer *Skwerl* (2011) gan Brian Fairbairn a Karl Eccleston; drama sy'n dwyn yr is-detil *How English sounds to non-English speakers*. Wrth gwrs, drama i'w chlywed ydy hon, ond mae darllen y sgript yn rhoi syniad inni o'r sain ryfedd a chyfarwydd-anghyfarwydd sydd i'r Saesneg ddyfeisiedig a ddefnyddir:

THE MAN	So I ran to york around the wash today.
THE WOMAN	Oh?
THE MAN	Yeah. That doll's areen blunderface.
THE WOMAN	Can bereave that mory alpen john. Joo flan by the blât call?

Mae'n anodd dweud ai Saesneg sydd yma ai peidio. Mae'n sicr yn swnio fel Saesneg ond nid yw'r geiriau yn gwneud unrhyw synnwyr. Cawn argraff glywedol o'r iaith yn unig ac nid ystyr ieithyddol.

Mae sain iaith tu hwnt i ystyr ei geiriau yn allweddol i'n dealltwriaeth o waith un o nofelwyr mawr yr ugeinfed ganrif, J. R. R. Tolkien, a dylanwad y Gymraeg arno. Amlygwyd pwysigrwydd *sain* y Gymraeg yn hyn o beth i mi'r llynedd, pan ryddhawyd cyfres deledu *The Lord of the Rings: Rings of Power* (2022) ar Amazon Prime. Yng nghronoleg byd y coblynnod, y dewiniaid, a'r hobbits, rhaghanes i ddigwyddiadau *The Hobbit* (1937) a *The Lord of the Rings*

(1954–55) yw stori'r gyfres boblogaidd (a chostus) hon. (Gyda'r bil yn darllen \$1biliwn, dyma'r gyfres deledu ddrutaf erioed.)

Gwyddom ers tro bod sawl cysylltiad rhwng Cymru â nofelau Tolkien, a'r cysylltiadau hynny wedi eu harchwilio'n fanwl gan sawl ysgolhaig, e.e. yn nghyfrol Carl Phelpstead, *Tolkien and Wales*. Llenyddiaeth Gymraeg canoloesol yw'r cysylltiad amlycaf. Gwelir hyn mewn sawl motiff ac enw: o'r adar-negeswyr a'r eryrod gwybodus (gweler drudwy Branwen a Thylluan Cwm Cawlwyd) i'r enwau lled-Gymraeg ('Arwen') a theitl llawysgrif teulu'r Baggins: 'The Red Book of Westmarch' (gweler Llyfr Coch Hergest).

Ond beth am yr iaith Gymraeg ei hun a dylanwad ei sain? Fel mae'n digwydd, yr actor Cymraeg Morfydd Clark yw prif seren *Rings of Power*. Wrth hyrwyddo'r gyfres ar raglen boblogaidd *The Late Show with Stephen Colbert* ar CBS yn yr Unol Daleithiau, bu'r actor yn trafod ei phlentyndod dwyieithog. Ar ôl rhoi tiwtorial i'r cyflwynydd ar sut i ynganu ei henw yn gywir, dyma hi'n dangos ei 'thalent' ieithyddol sef, yn syml iawn, adrodd yr wyddor Gymraeg: *party trick sy'n* derbyn cymeradwyaeth gwresog tu hwnt. Fel mae hi ei hun yn cydnabod, 'my friends at home can't believe I'm getting applause for saying the alphabet'. Ond mae sain y ffonemau Cymraeg yn cyfareddu'r gynulleidfa. Caiff y gwrandawyr Americanaidd di-Gymraeg eu swyno gan seiniau anghyfarwydd yr iaith; nid gan ei hystyron, na'i hanes, na'i llenyddiaeth, ond gan ei sain yn unig. Yn reit briodol, mae Stephen Colbert yn ei dro yn lleisio un o'r prif resymau dros ryfeddu'r gynulleidfa gan ddatgan 'I have no idea where one sound ends and another begins'.

Fel mae'r cyflwynydd yn awgrymu: llinyn di-dor o seiniau yn unig ydy pob iaith mewn gwirionedd ac wrth glywed iaith nad ydym yn ei deall, heb allu adnabod y geiriau na'u hystyron, dyna'r oll a glywn. Gyda phob iaith, coda'r aer o'r ysgyfaint drwy'r bibell wynt ac allan trwy'r geg gan ddirgrynu tannau'r llais yn y corn gwddw ar y ffordd. (Siâp ein ceg a'n tafod sydd wedyn y pennu pa ffonem a gaiff ei chynhyrchu: gwefusau cau ar gyfer 'm', tafod wrth y daflod ar gyfer 'l'.)

Dim ond ychydig yn wahanol ydy adeiladwaith ffonetig ieithoedd y byd, ac eto mae'n naturiol inni osod labelau ar sain pob un ohonynt. Pam mai nodweddion ystrydebol Almaeneg ydy ei bod yn 'gras'? Pam fod y Wyddeleg yn 'felodaidd', ac Eidaleg yn 'rhamantaidd'? A pham bod y nodweddion hyn yn aml yn gwrth-ddweud ei gilydd? Sut all y Gymraeg fod yn llyfn a chyfareddol gan fodd mewn cytseiniaid caled ar yr un pryd?

Yr allwedd yw cyd-destun: rhagfarnau'r gwrandäwr, enw da neu ddrwg y siaradwr a'i iaith, a'r berthynas rhwng y gwrandäwr a'r siaradwr. 'Hudol' oedd sain y Gymraeg i un defnyddiwr YouTube ar ôl gwyllo fideo o Hywel Gwynfryn yn siarad Cymraeg – 'sounds magical like a Dutch person speaking Icelandic-ish' meddai 'Klaod Nell' – ond does dim byd hanfodol 'hudol' am y Gymraeg. Yn hytrach, rhaid bod y defnyddiwr yn ei chlywed hi felly gan eu bod nhw wedi cael profiadau positif gyda'r Gymraeg yn y gorffennol, bod naws gofalgar Hywel Gwynfryn yn plesio, neu efallai eu bod yn gyfarwydd ag enwogrwydd y siaradwr fel un o hoff ddarlledwyr Cymru. Trosglwyddir y teimladau hyn wedyn draw at ddirnadaeth y gwrandäwr o sain yr iaith yn gyffredinol.

Nid rhywbeth newydd yw ystrydebau clywedol ieithoedd chwaith. Yr un oedd y sefyllfa yn yr Oesoedd Canol, sef cyfnod pwysig wrth drafod Tolkien gan mai canoloeswr a ieithydd oedd ef wrth ei waith. Bu'n darlithio yng Nghyfadrn Saesneg Prifysgol Rhydychen drwy gydol ei fywyd gweithio bron iawn, a hynny ar ieithoedd canoloesol Ynys Prydain, yn enwedig Hen Saesneg (iaith Beowulf), Saesneg Canol (iaith Geoffrey Chaucer), Hen Norseg (iaith y Llychlynwyr), Lladin (iaith y Beibl a bob math o destunau eraill), ac, wrth gwrs, y Gymraeg. Ar sail rhain ac eraill y bu'n creu ei ieithoedd dyfeisiedig, ac yn wir, hanes yr ieithoedd newydd hyn oedd *The Hobbit* a *The Lord of the Rings* i ddechrau. Wrth i'r ieithoedd dyfu mewn nifer a chymhlethdod, roedd rhaid creu hanesion i esbonio eu datblygiad dros amser a'u perthynas i'w gilydd. Er mwyn i iaith newid, rhaid cael siaradwyr, ac wrth greu'r siaradwyr, dyna eni ar gymeriadau a straeon enwocaf llên ffantasi.

Yn gyffredinol, sain gryg a garw oedd i'r Saesneg yng Nghymru ganoloesol: mae'r cymal 'Saesneg wangreg' yn ymddangos fwy nag unwaith ym marddoniaeth beirdd yr uchelwyr. O ran gwrando goddrychol y beirdd, un rheswm mai sain anghynnes oedd i'r Saesneg oedd mai iaith fygythiol y mewnfudwyr, y trefolion, a'r cerddorion newydd ydoedd: iaith a oedd fel pe tai'n sathru ar draed y bardd. Ond am yr un rheswm, tra roedd y Saesneg yn tyfu mewn awdurdod ym mhob agwedd arall ar gymdeithas Gymreig, byd Cymraeg ei hiaith oedd barddoniaeth yn anad dim, ac felly pan mae'r Saesneg yn ymddangos ynddi, try'n destun sbort. Gyda bod 'yr annisgwyl' yn un o brif gynhwysion comedi, cyn gynted ag y bod Saesneg yn croesi'r trothwy Cymraeg, try'n iaith eilradd sy'n swnio allan o le. (Yr un yw'r hiwmor wrth gynnwys Saesneg yng ngherddi'r Ymryson a'r Talwrn hyd heddiw.) Cwpled cofiadwy yn hyn o beth ydy geiriau bownser mewn tafarn yn nhre'r Fflint sy'n taflu allan y bardd Tudur Penllyn (pymthegfed ganrif): "Ywt," ebr Sais, drais drysor, / "Y nelo mynsdrel na mor" ('Allan,

meddai'r Sais, bownser treisgar, / 'Cefais ddiagon ar y clerwr'). Pwynt arwyddocaol arall o ran sain y Saesneg ydy'r ffaith nad yw'r iaith o hyd yn ramadegol gywir, oherwydd nid ei chynnwys oedd bwysicaf, ond ei phresenoldeb. Cyn belled ag oedd y gynulleidfa yn medru adnabod iaith y geiriau estron yn tresmasu ar dir llenyddol Cymru, byddai sain y geiriau hynny, a'r sain yn unig, yn ddigon i godi gwên.

Ond wrth gwrs, mae gwrando goddrychol yn system ddwy ffordd. Cymerwch gymeriad 'Hotspur' yn *Henry IV Part 1*, un o ddramâu hanes William Shakespeare, sy'n disgrifio sain barddoniaeth Gymraeg fel 'the forced gait of a shuffling nag'. Mae yntau Fluellen yn *Henry V* yn siarad rhyw Saesneg 'Cymreig' tu hwnt wrth droi pob cytsain yn gytsain galed: 'I must speak with him from the pridge. God pless your majesty. [...] The Duke is a prave man'. Gallai hithau'r Gymraeg fod yn iaith reit gras yn ei thro felly.

Stori debyg sydd i'r Wyddeleg. Y gwahaniaeth rhwng hon a'r Saesneg, oedd prin iawn oedd y Cymry a oedd yn medru'r iaith, ac felly sain ddi-iaith oedd hi o reidrwydd bron. Er bod y Wyddeleg a'r Gymraeg yn perthyn yn agos, dydyn nhw ddim yn gyd-ddealladwy, a rhaid hefyd cofio mai cysyniad lled-ddiweddar yw'r brawdgarwch Celtaidd rhwng Iwerddon a Chymru. 'Sŵn' oedd y Wyddeleg mewn gwirionedd. Caiff ei thargedu yn benodol gan ambell fardd, a hynny o ran ei sain anwaraidd: 'Yswain morchwain mawrchwaith, / Ŷs faw diawl, aswy fu d'iaith' (*Y cnaf llawn chwain chwerw, / dos i fwyta'r baw, trwstan yw dy iaith*) meddai Iolo Goch i'r 'Gwyddelyn'.

Eto, yr hyn a berodd yr agwedd gwrth-Wyddelig hon oedd enw cyffredinol gwael Gwyddelod yng Nghymru ganoloesol. Byddai geiriau fel 'Gwyddel' o hyd yn golygu rhywbeth barbaraidd ac aflafar, ac mae cymeriadau Gwyddelig fel rheol yn rhai annibynadwy os nad milain, fel criw Matholwch yn stori Branwen. Mae hyn yn rhannol oherwydd, yn y byd go iawn, gelynydd oedd Gwyddelod gan fwyaf: un ai ar faes y gad wrth i Gymry eu hymladd dan Goron Lloegr, neu ym maes adloniant wrth i'r beirdd orfod cystadlu gyda'u telynorion a oedd yn gynyddol boblogaidd. (Eto, ar ochr arall y geiniog, ansoddair Gwyddeleg i ddisgrifio 'nam dweud' neu 'toredig' oedd 'briotach', yn deillio o'r gair 'bretnach' (*Cymraeg; Prydeinig*.)

Roedd yn llawer gwell gan Gymry glywed yr iaith Ladin. Y 'Ladin dilediaith' neu'r 'Lladin gyson', fel mae'r beirdd yn ei disgrifio. Iaith bur a sanctaidd oedd hon: dyma iaith y Beibl canoloesol, iaith wyrthiol yr Offeren, a iaith yr 'Ave Maria': yr iaith a sibrydodd Gabriel yng nghlust Mair wrth gyhoeddi ei bod am esgor ar fab Duw. Iaith hynod bwerus a phwysig felly: 'trwy'r gred, trwy'r giried, trwy'r geiriau - Lladin / a wna'r gwaed o'r gwin, rhin ein Rhiau', medd

Gruffudd ap Maredudd (pedwaredd ganrif ar ddeg). Does syndod fod y cerddi sy'n cynnwys Lladin i gyd yn rhai difrifol grefyddol yn moli Duw, Mair, a phrydferthwch yr iaith Ladin ei hun: 'adaill â sail qui es in caelis' (*adeilad gyda sylfaen yr hwn sydd yn y nefoedd*) ydy'r nefoedd yn ôl Lewys Glyn Cothi (pymthegfed ganrif).

Felly, ers canrifoedd, mae dirnad sain ieithoedd anghyfarwydd wedi bod yn weithred oddrychol. Nid yw'r hyn sy'n pennu a oes gan iaith sain lyfn neu garw, hoffus neu gas, oeraidd neu groesawgar, ddim oll i wneud gyda nodweddion mesuradwy iaith.

Serch hynny, mae cornel fechan o ieithyddiaeth – gwyddoniaeth iaith – yn ceisio deall mwy am yr ymateb personol hwn i sain iaith. A dyma lle down at Tolkien a'i berthynas â'r Gymraeg, oherwydd *gwrando* arni oedd yr awdur a'r ysgolhaig hwn. Dychwelwn at ein cwestiwn agoriadol: beth yw eich hoff air ar sail ei sain? 'Moesymgrymu'? 'Trafferthus'? 'Pendramwnwgl'?

A beth am y cymal Saesneg 'cellar door'? Sut sain sydd i hwn yn eich tyb chi? Dyma gymal sy'n ymddangos yn narlith enwog Tolkien 'English and Welsh' a draddododd ym 1955, ychydig fisoedd ar ôl cyhoeddi *The Return of the King*, sef yr olaf yn nhrioleg *The Lord of the Rings*. Roedd yr awdur wrth ei fodd â sain y geiriau hyn, a'r hyn sy'n bwysig yw ei fod yn nodi yn blwmp ac yn blaen nad ystyr y geiriau sy'n mynd â'i fryd. Nid yw'r syniad o 'ddrws i'r seler' yn un plaserus. I'r gwrthwyneb, crea ddelwedd fygythiol neu arswydus. Ond gellir rhoi hwn naill ochr ac ymhyfrydu yn sain y geiriau yn unig. Nid yw Tolkien yn cynnig rheswm penodol dros ei gariad at y sain – o bosib y llafariad 'o' agored ('door') sy'n anarferol yn Saesneg ond yn gwbl gyffredin yn y Gymraeg – ond dyna'r pwynt: mae *gwrando* yn weithred oddrychol a greddfol.

I faes 'ffonoesteteg' perthyn yr ymateb greddfol hwn, sy'n pwysu ar y syniad bod gan sain geiriau ystyr estheteg tu hwnt i'w hystyr ieithyddol. Hynny yw, gall gair swnio'n 'neis' neu'n 'ych-a-fi' heb unrhyw gysylltiad ag ystyr y gair hwnnw. Fel mae Tolkien yn dangos, rhywbeth personol ac anfesuradwy ydy'r ddirnadaeth o'r ystyr estheteg hwn.

Maes arall perthnasol ydy 'symbolaeth iaith' neu 'eiconigrwydd', sef yr astudiaeth o'r berthynas rhwng gair a'i ystyr. Yn ôl ieithegwyr strwythurol y ganrif ddiwethaf, ieithegwyr megis Ferdinand de Saussure, does dim cysylltiad anianol rhwng gair (neu 'arwydd') a'i ystyr: does dim byd 'ci-aidd' am y gair 'ci' na 'thren-aidd' am y gair 'trên'. Ar y cyfan, mae'r ddamcaniaeth yn dal dŵr, ond ceir sawl eithriad. Y pennaf yn eu mysg yw geiriau onomatopëig: geiriau sy'n cyfleu union sain y weithred y maen nhw'n eu disgrifio. Felly, *mae* yna gysylltiad

rhwng 'soch soch' a'i ystyr, sef sain y mochyn, neu rhwng 'bang bang' a sain y gwn, neu hyd yn oed rhwng geiriau llai amlwg onomatopëig a'u seiniau perthnasol: geiriau fel 'clapio', 'rhochian', neu 'chwiban'. Felly hefyd geiriau ideoffonig: geiriau sy'n cyfleu syniad yr hyn maen nhw'n eu disgrifio, e.e. 'igam-ogam' neu 'pili-pala'. Prawf enwoca'r maes oedd pan gyflwynwyd cyfranogwyr arbrawf â dau siâp gan ofyn pa un oedd yn cynrychioli'r gair ddyfeisiedig 'bouba' a pha un oedd yn cynrychioli 'kiki'. Yn ddieithriad bron, er nad oedd ystyr ieithyddol i'r geiriau gwirion hyn, labelwyd y siâp ag ymylon crwn yn 'bouba' a'r siâp pigog yn 'kiki': roedd eu sain yn ddigon i bennu'r ystyr.

Cysyniadau tebyg sydd y tu ôl i ddilêit Tolkien yn 'cellar door' ac, ymhellach, yn yr iaith Gymraeg. Sain y Gymraeg sydd yn dwyn ei fryd yn fwy na dim. Yn 'English and Welsh' down o hyd i'w eiriau enwocaf am y Gymraeg: 'Welsh is of this soil, this island, the senior language of the men of Britain'. Ond yn amlach na pheidio, mae'r geiriau sy'n dilyn yn cael eu hepgor, er eu bod yn hanfodol: '...and Welsh is beautiful'. Gwir ystyr y geiriau hyn, wrth gwrs, ydy 'the sound of Welsh is beautiful', oherwydd, yn dilyn y datganiad, dyma Tolkien yn rhestru llond paragraff o eiriau digon cyffredin, os nad dibwys, eu hystyr, ond rhai sydd â sain arbennig i'w glustiau ef: 'alarch', 'haul', 'tân', 'gwynt', 'melyn', 'niwl', 'caled', 'meddal'. Geiriau sydd oll yn swnio'n hyfryd iddo ef, waeth bynnag eu hystyron. Yr enghraifft fwyaf trawiadol yw ei atgof o ddarllen 'adeiladwyd 1887' wedi ei gerfio ar garreg rhyw orsaf drenau dienw yng Nghymru wledig: 'it pierced my linguistic heart' meddai.

Does syndod felly bod y Gymraeg wedi treiddio pob un o ieithoedd ei gymeriadau mwyaf arbennig, doeth, hardd, a hynafol: y coblynnod. Mae'r ieithoedd 'Elvish' i gyd wedi eu hysbrydoli gan y Gymraeg, a'r Sindarin yn bennaf, sef iaith cymeriadau Elrond, Celeborn, a Galadriel (cymeriad Morfydd Clark).

Does syndod chwaith mai 'magical' oedd sain y Gymraeg i Klaod Nell a fu'n gwrando ar Hywel Gwynfryn. Ymddengys felly y perthyn yr iaith i ryw gysyniad ffantasi Geltaidd oedd gan y gwrandäwr hwnnw. Yn wir, gwaddol defnydd Tolkien o'r iaith, a'i sain yn enwedig, yw ei bod bellach yn swnio fel Elvish i nifer, y rhan fwyaf yn wrandawyr tu hwnt i Gymru. Dyna yn union y mae Stephen Colbert yn ei ddatgan wrth geisio ynganu enw Morfydd Clark: "Morfydd"?...there you go...already sounds Elvish'. Ond wrth gwrs, mae'r gwirionedd i'r gwrthwyneb: Elvish sydd yn swnio fel y Gymraeg.

Doedd y Gymraeg ddim yn estron i Tolkien erbyn ei ddarlith – ceir yno drafodaeth fanwl ar hanes morffoleg y ferfenw 'bod', er enghraifft – ond nid yw hynny'n wir am sawl awdur sydd

wedi dilyn ei arfer o droi at yr ieithoedd Celtaidd wrth ddyfeisio ieithoedd. O gymeriadau megis 'Cahir Mawr Dyffryn aep Ceallach' a'r iaith 'Elder Speech' yn llyfrau *The Witcher* (1990–2018, *Wiedźmin* yn y Bwyleg gwreiddiol), sydd bellach yn gêm gyfrifiadurol a chyfres Netflix boblogaidd, i enwau priod megis 'Cairhien' a'r 'Tuatha'an' yn llyfrau *The Wheel of Time* (1990–2013), sydd yntau hefyd bellach yn gyfres Amazon boblogaidd, mae geiriau lled-Gymraeg neu led-Wydddeleg i'w canfod ym mhobman ym myd llên ffantasi.

Ymddengys mai dewis a dethol y 'seiniau Celtaidd' a wna'r awduron hyn, heb dalu sylw gorfawwl i'r ieithoedd eu hun a'u llenyddiaeth. Er gwaethaf ei ddealltwriaeth fanwl, mae agwedd Tolkien tuag at y fath ddefnydd i'w cael yn yn y ddarlith uchod wrth ddatgan 'Celtic [...] is a magic bag, into which anything may be put, and out of which almost anything may come', ac hefyd i'w cael mewn llythyr cynharach at ddarllynydd brwd, 'there is bright colour but no sense [in Celtic literature]'. Datganiadau sy'n llawn canmol ar un olwg, ond rhai sy'n troi amryfal ddiwylliannau'r ieithoedd Celtaidd yn un endid monolithig, ac endid 'egsotig' wrth hynny.

Beth, wedyn, yw goblygiadau'r ieithoedd ffuglennol hyn ar yr ieithoedd go iawn sydd y tu ôl iddynt? I ba raddau mae dewis a dethol agweddau ar y Gymraeg neu'r Wyddeleg wrth greu ieithoedd ffantasi yn niweidiol i statws neu hyd yn oed hygrdedd yr ieithoedd go iawn hynny, ac i ba raddau y mae'n llesol? I ba raddau mae'r fath ddefnydd yn atgyfnerthu hen ystrydeb y gwareiddiad Eingl-sacsonaidd a'r gwylltineb Celtaidd cyfrin, ac i ba raddau y mae'n cynyddu poblogrwydd yr ieithoedd? Beth bynnag fo atebion y cwestiynau hyn, mae'n siŵr bod ateb gwahanol gan bob atebwr gwahanol, yn union fel y mae gan bob iaith wahanol sain wahanol yng nghlustiau pob gwrandäwr gwahanol.

Cyfeiriadau (Llyfrau)

- Carl Phelpstead, *Tolkien and Wales: Language, Literature and Identity* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2011)
- Ferdinand de Saussure, *Course in General Linguistics*, gol. Perry Meisel a Haun Saussy, cyf. Wad Baskin (Efrog Newydd: Columbia University Press, 2011)
- J. R. R. Tolkien, *The Monsters and the Critics and Other Essays* (Llundain: Harper Collins, 2006)

Cyfeiriadau (Arall)

- A channel, *Alvin Lucier - I Am Sitting in a Room*, YouTube, 24 Mehefin 2017 <https://www.youtube.com/watch?v=bhtO4DsSazc&t=59s>
- Alvin Lucier, *Alvin Lucier: Two Circles*, (Mode Records, 2016) [sain]
- Alvin Lucier a Douglas Simon, *Chambers* (Middletown, CT: Wesleyan University Press, 1980), tt. 30–31 [testun]
- Brian and Karl, *How English sounds to non- English speakers*, YouTube, 8 Hydref 2011 <https://www.youtube.com/watch?v=Vt4Dfa4fOEY> [sain]
- @briandkarl, *SKWERL*, tumblr.com, 9 Chwefror 2015 [testun] <https://www.tumblr.com/briandkarl/110560981278/we-get-a-lot-of-emails-asking-for-the-skwerl>
- The Late Show with Stephen Colbert, *"She's Pretty Cool" - Morfydd Clark On Her Character Galadriel In 'The Rings of Power'*, YouTube, 4 Awst 2022 <https://www.youtube.com/watch?v=0YBxPmC7H5s&t=162s>

Syniadau delweddau

- Llundun o Bouba-Kikki. (E.e. <https://commons.wikimedia.org/wiki/File:Booba-Kiki.svg>)
- Llundun o *The Rings of Power*
- Llundun o glawr gwreiddiol *The Hobbit/LOTR*, neu *The Witcher*